OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 Rhif 964 (Cy. 237)

# CARTREFI SYMUDOL, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 (Darpariaethau Canlyniadol) 2016

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *28 Medi 2016* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *30 Medi 2016* |
| *Yn dod i rym - -* | *31 Hydref 2016* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddir iddynt gan adran 58(3)(a) o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013(**1**).

## RHAN 1

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 (Darpariaethau Canlyniadol) 2016.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 31 Hydref 2016.

## RHAN 2

### Diwygio Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007

**2.**—(1) Mae Atodlen 1 i Reoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007(**2**) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 1 o Ran B (swyddogaethau trwyddedu a chofrestru (i'r graddau nad oes unrhyw baragraff arall yn yr Atodlen hon yn ymdrin â hwy))—

(a) yng ngholofn (1) y Tabl ar ôl "Y pŵer i ddyroddi trwyddedau sy''n awdurdodi defnyddio tir fel safle carafannau", mewnosoder "neu safle cartrefi symudol"; a

(**1**) 2013 dccc 6.

(**2**) O.S. 2007/399 (Cy. 45).

(b) yng ngholofn (2) y Tabl, ar ôl "Adran 3(3) o Ddeddf Safleoedd Carafannau a Rheoli Datblygu 1960 (p.62)" mewnosoder "ac adran 7(1) o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 (dccc 6)".

### Diwygio Rheoliadau Taliadau Sŵn Priffyrdd (Cartrefi Symudol) (Cymru) 2001

**3.**—(1) Mae Rheoliadau Taliadau Sŵn Priffyrdd (Cartrefi Symudol) (Cymru) 2001(**3**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2 (dehongli), yn y diffiniad o "cartref symudol"—

(a) hepgorer paragraff (a);

(b) ar ddiwedd paragraff (b) yn lle ";" rhodder ", neu"; ac

(c) ar ôl paragraff (b) mewnosoder—

"(c) cartref symudol o fewn ystyr adran 60 o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013;".

(3) Yn rheoliad 7(1)(a) (cartrefi cymwys)—

(a) yn lle "carafán, wedi'i lleoli'n" rhodder "cartref symudol, wedi'i leoli'n"; a

(b) yn lle "adran 1(2) o Ddeddf Safleoedd Carafanau 1968" rhodder "adran 2(2) o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013".

### Diwygio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995

**4.** Yn Rhan 5 o Atodlen 2 i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995(**4**), o dan Ddosbarth B (datblygu a ganiateir) ar ôl "the 1960 Act" mewnosoder "and the Mobile Homes (Wales) Act 2013".

*Carl Sargeant*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant, un o Weinidogion Cymru

28 Medi 2016

(**3**) O.S. 2001/604 (Cy. 27).
(**4**) O.S. 1995/418.

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn gwneud diwygiadau canlyniadol mewn perthynas â Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 ("Deddf 2013") a daw i rym ar 31 Hydref 2016.

Mae erthygl 2 yn mewnosod cyfeiriadau at safle cartrefi symudol ac at Ddeddf 2013 yn Rhan B y Tabl yn Atodlen 1 i Reoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007.

Mae erthygl 3 yn gwneud newidiadau i reoliadau 2 a 7(1)(a) o Reoliadau Taliadau Sŵn Priffyrdd (Cartrefi Symudol) (Cymru) 2001.

Mae erthygl 4 yn mewnosod cyfeiriad at Ddeddf 2013 yn Rhan 5 o Atodlen 2 i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.